Taith – Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol Cymru ar gyfer Dysgu

2022 Canllawiau Craidd Rhaglen

Cynnwys

Geirfa 4

1. Cyflwyniad i Taith 8

2. Trosolwg 10

2.a. Ein nodau 12

2.b. Ein hymrwymiadau 13

2.c. Cyrff Trefnu Sector 13

3. Pwy all wneud cais/cymryd rhan yn y rhaglen 14

3.a. Cymhwysedd - Sefydliadau sy'n gwneud cais 15

3.b. Partneriaid rhyngwladol 23

3.c. Cydgyfnewid 24

3.d. Cyrchwledydd a thiriogaethau cymwys 24

4. Llwybrau ariannu 25

5. Cyn cyflwyno cais 27

5.a. Capasiti 28

5.b. Llenwi'r ffurflen gais 28

6. Beth sy'n digwydd ar ôl cyflwyno cais 29

6.a Trefn asesu 30

6.b Penderfynu dyfarnu grant neu beidio 31

6.c Hysbysiad o ganlyniad 32

7. Beth sy'n digwydd pan fydd eich cais yn 33

7.a. Cyfnewid Llythyr Cytundeb Grant 34

7.b. Talu cyllid grant 34

7.c. Rheoli prosiectau ac adrodd arnynt 34

7.d. Diogelu 35

7.e. Gwiriadau ac archwiliadau 37

8. Apeliadau a chwynion 38

8.a. Apeliadau 39

8.b. Cwynion 39

Atodiad 1 – Categorïau grwpiau gwlad / tiriogaeth 41

Atodiad 2 – Cymorth Cynhwysiant Taith 44

Geirfa

Adroddiad interim Adroddiad gorfodol y mae angen i'r holl fuddiolwyr ei gyflwyno i Taith ar adeg benodol yn ystod oes y prosiect.

Adroddiad terfynol Adroddiad gorfodol y mae angen i'r holl fuddiolwyr ei gyflwyno i Taith ar ddiwedd y prosiect.

Buddiolwr Pan gaiff ei gymeradwyo ar gyfer cyllid prosiect, daw'r sefydliad sy'n gwneud cais yn fuddiolwr y cyllid grant ac mae'n gyfrifol am lofnodi'r cytundeb grant.

Consortiwm Dau neu ragor o sefydliadau sy'n cydweithio i ddatblygu a chyflawni prosiect neu weithgaredd o fewn prosiect.

Costau cymwys Swm y grant (sy'n seiliedig fel arfer ar gyfradd uned) sy'n gysylltiedig â chynnal gweithgareddau prosiect.

Cyfnewidiadau rhithwir Cymryd rhan mewn gweithgaredd prosiect a/neu gyfleoedd dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol neu anffurfiol gan ddefnyddio llwyfannau neu offer dysgu ar-lein/digidol ac mewn cydweithrediad ag o leiaf un sefydliad rhyngwladol. Dylai unrhyw gyfle dysgu rhithwir roi profiad dysgu rhyngwladol ystyrlon gyda deilliannau dysgu y cytunir arnynt.

Cyfraddau grant Cyfraddau sefydlog sydd ar gael ar gyfer costau cymwys gwahanol.

Cyfranogwr Unigolyn sy'n ymgymryd â lleoliad cyfnewid rhyngwladol corfforol/rhithwir neu gyfunol mewn prosiect a ariennir gan Taith.

Cyfranogwr difreintiedig Cyfranogwyr sy'n fyfyriwr neu'n berson ifanc sy'n cael eu hystyried dan anfantais yn unol ag un neu ragor o feini prawf Taith a byddant yn gymwys i gael cymorth ariannol ychwanegol. Gweler Atodiad 2 yng Nghanllaw'r Rhaglen am ragor o fanylion.

Cyllid dwbl Ariennir y costau ar gyfer yr un gweithgaredd ddwywaith drwy ddefnyddio arian cyhoeddus. Er eglurder, ni chaniateir hyn ac ystyrir ei fod yn torri telerau ac amodau'r Cytundeb Grant.

Cyllideb prosiect Cyfanswm yr arian a ddyrannwyd ar gyfer gweithgareddau y cytunwyd arnynt o fewn prosiect a ariennir gan Taith.

Cynhaliaeth Cyllid sydd ar gael i dalu costau byw, a all gynnwys llety, bwyd a thrafnidiaeth lleol, tra'n ymgymryd â lleoliad cyfnewid wyneb yn wyneb.

Cynrychiolydd cyfreithiol Y person sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol i gynrychioli sefydliad ac sydd â'r awdurdod cyfreithiol i ymrwymo i gontract cyfreithiol rwymol, gan gynnwys, yng nghyd-destun Taith, yr awdurdod i lofnodi Cytundeb Grant.

Cyrsiau a gweithgareddau hyfforddi Unrhyw weithgaredd sy'n anelu at ddatblygu cymwyseddau personol neu broffesiynol drwy raglen strwythuredig. Dylai'r rhaglen fanylu ar ganlyniadau dysgu bwriedig a dylai arbenigwyr a/neu hyfforddwyr cymwys eu cyflawni.

Cytundeb Grant Y cytundeb ysgrifenedig rhwng Taith a'r buddiolwr yn manylu ar delerau ac amodau'r dyfarniad cyllid yn unol â'r ffurflen gais a fydd wedi'i hasesu i fod yn gymwys i'w hariannu ac wedi'i chymeradwyo i'w hariannu gan y pwyllgor perthnasol.

Datblygiad proffesiynol Dysgu sy'n gwella galluoedd proffesiynol cyfranogwyr ac sy'n datblygu'r sgiliau a chymwyseddau proffesiynol a nodwyd. Mae cyfleoedd datblygu proffesiynol yn cynnwys, er enghraifft, cyrsiau hyfforddi strwythuredig, cysgodi swyddi, seminarau a chynadleddau.

Deilliannau dysgu Datganiadau o'r hyn y mae dysgwr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud ar ôl cwblhau proses ddysgu (yn cynnwys gweithgarwch yn rhan o'r prosiect, cyfleoedd dysgu – gall y rhain fod yn ffurfiol, heb fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol).

Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais Y dyddiad a'r amser olaf y gellir cyflwyno'r holl ffurflenni cais er mwyn i dîm Taith eu hystyried a'u hasesu.

Dysgu anffurfiol Dysgu sy'n digwydd y tu allan i raglen ddysgu drefnus neu strwythuredig ac nid oes cymorth dysgu yn bresennol. Cyfeirir atynt weithiau fel dysgu drwy brofiad neu achlysurol.

Dysgu di-ffurfiol Dysgu sy'n digwydd y tu allan i unrhyw raglen ddysgu sydd wedi'i threfnu neu'i strwythuro, ond mae rhywfaint o gymorth dysgu yn bresennol.

Dysgu ffurfiol Unrhyw ddysgu sy'n digwydd yn rhan o raglen ddysgu sydd wedi'i threfnu neu'i strwythuro.

Galwad am gyllid Y cyfnod o amser pryd y gellir cyflwyno ceisiadau am gyllid.

Grant Y cyllid a ddyfernir gan Taith i sefydliad sy'n gwneud cais yn llwyddiannus.

Gweithgaredd cymwys Gweithgaredd sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yng Nghanllaw Rhaglen Taith.

Gweithgareddau lledaenu Y gweithgareddau a ddefnyddir i rannu allbwn y prosiect gyda sefydliadau/sector(au) eraill.

Lleoliad Cyfnewid Allanol Cyfranogwyr o sefydliadau cymwys yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a gefnogir gan Taith mewn sefydliadau sy'n derbyn y tu allan i'r DU (neu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, y tu allan i Gymru mewn sefydliadau sy'n derbyn yng ngweddill y DU).

Lleoliad cyfnewid cyfunol Lleoliad cyfnewid sy'n digwydd yn gyfunol, wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, yn defnyddio cyfnewid dysgu ar-lein cydweithredol/ trwy waith tîm.

Lleoliad Cyfnewid Mewnol Cyfranogwyr o sefydliadau anfon cymwys sy'n dod i Gymru i gymryd rhan mewn gweithgaredd neu raglen a ariennir gan Taith.

Mis Wrth gyfrifo swm grantiau Taith, mae mis yn 28 diwrnod.

Partneriaeth Cytundeb ffurfiol rhwng dau neu ragor o sefydliadau i gymryd rhan mewn prosiect a ariennir gan Taith ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau dysgu ar y cyd.

Person cysylltiedig Oedolyn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o staff y sefydliad sy'n gwneud cais, a fydd yn bresennol gyda'r cyfranogwyr mewn gweithgaredd cyfnewid yn ystod y lleoliad ac yn cefnogi cyfranogwyr i sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf posibl o'r gweithgareddau. Dylai grwpiau o gyfranogwyr fod yng nghwmni gweithiwr proffesiynol cymwys er budd cefnogi a hwyluso dysgu.

Prosiect Gweithgareddau wedi'u trefnu a'u cynllunio y cytunir arnynt er mwyn cyflawni amcanion a chanlyniadau clir.

Rhag-ariannu Taliad ymlaen llaw gyda'r bwriad o ddarparu cyllid i'r buddiolwr i allu dechrau gweithgareddau'r prosiect.

Rhyngwladol Yng nghyd-destun Taith, unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Sefydliad sy'n gwneud cais Y sefydliad yng Nghymru sy'n cyflwyno cais am gyllid i Taith. Gall sefydliad sy'n gwneud cais wneud hynny naill ai'n unigol neu ar ran consortiwm, sy'n cynnwys sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r prosiect.

Sefydliad cymwys Sefydliad sy'n gallu gwneud cais am gyllid Taith.

Sefydliad partner Term generig ar gyfer unrhyw sefydliad sy'n ymwneud yn ffurfiol â phrosiect a ariennir gan Taith, lle mae perthynas neu ryngweithio'n rhan o'r prosiect. Gall gynnwys y sefydliadau hynny a nodwyd fel sefydliad sy'n gwneud cais, cydlynydd, sefydliad sy'n derbyn neu sefydliad sy'n anfon yn ogystal ag eraill sy'n ymwneud â chyflawni'r prosiect.

Sefydliadau sy'n anfon Sefydliadau sydd wedi'u cofrestru ac sy'n gweithredu y tu allan i'r DU ac yn anfon cyfranogwyr i sefydliad lletyol yng Nghymru yn ystod lleoliad cyfnewid wyneb yn wyneb. Diffinnir sefydliadau anfon cymwys yn adrannau sector-benodol Canllaw'r Rhaglen.

Sefydliad sy'n derbyn Pan fydd unigolion neu grwpiau'n cymryd rhan mewn lleoliad cyfnewid wyneb yn wyneb drwy Taith, y sefydliad sy'n derbyn fydd eu sefydliad lletyol. Gellir cyfeirio at y sefydliad hwn yn aml fel lletywr neu partner sefydliad rhyngwladol. Diffinnir sefydliadau derbyn cymwys yn adrannau sector-benodol Canllaw'r Rhaglen.

Staff Person sy'n cael ei gyflogi gan sefydliad sy'n gwneud cais, neu'n gweithio iddo, boed ar sail broffesiynol neu wirfoddol.

Symudedd Corfforol Symud yn gorfforol i wlad ar wahân i'r wlad breswyl i gymryd rhan mewn gweithgarwch prosiect a/neu gyfle dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol neu anffurfiol.

Teithio Gwyrdd Dulliau trafnidiaeth cynaliadwy, h.y. teithio sy'n defnyddio dulliau trafnidiaeth ag allyriadau isel ar gyfer prif ran y daith. Er enghraifft, bysiau, trenau neu rannu ceir.

Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (RhGRD) RhGRD sy'n cyflawni Taith fel gweithrediaeth y rhaglen ac mae'n is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i Brifysgol Caerdydd.

1. Cyflwyniad i Taith

1. Cyflwyniad i Taith

Mae Taith yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n galluogi pobl yng Nghymru i astudio, hyfforddi, gwirfoddoli a gweithio ar draws y byd, tra'n caniatáu i sefydliadau yng Nghymru wahodd partneriaid a dysgwyr rhyngwladol i wneud yr un peth yma yng Nghymru.

Mae Taith wedi'i sefydlu fel y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (RhGRD) Cyf, is-gwmni sy'n eiddo i Brifysgol Caerdydd, ac felly mae'n adrodd i Fwrdd Cyfarwyddwyr RhGRD Cyf. Yn ogystal, mae yna Fwrdd Cynghori Taith, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o holl sectorau buddiolwyr Taith ac o Lywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Cynghori'n cynghori tîm y rhaglen ar ddatblygiad a chyflawniad Taith.

Ein hethos
'Ein nod yw cael ein cydnabod fel asiantaeth ariannu o safon fyd-eang i Gymru. Rydym ni fel sefydliad yn gefnogol, yn agored ac yn ceisio deall dyheadau, anghenion yn ogystal â'r rhwystrau i fynediad i wahanol sectorau. Mae ein cyllid yn gyfyngedig, ac rydym yn cydnabod na fydd pawb yn llwyddo i gael mynediad ato. Fodd bynnag, ein nod yw sicrhau ei fod yn estyn mor bell a'i fod mor gynhwysol â phosibl tra'n dilyn proses gyson, gadarn a theg a bod y rhai sy'n ymgysylltu â ni'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u clywed.

Rydym yn bwriadu ymgysylltu, adolygu a gwella'n barhaus er mwyn dod o hyd i gyfleoedd newydd a chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl a sefydliadau yng Nghymru rhag cael mynediad at gyfleoedd dysgu rhyngwladol trwy Taith.'

Canllawiau Rhaglen Graidd Taith
Mae'r canllawiau hyn yn llawlyfr sy'n rhoi rhagor o wybodaeth i sefydliadau ac unigolion am Taith, sut mae'r rhaglen yn gweithio a phwy sy'n gymwys i wneud cais am gyllid, a'i gael. Mae'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar sefydliadau i gymryd rhan. I gyd-fynd â'r Canllawiau Rhaglen Graidd hwn mae gennym Ganllawiau Rhaglen Llwybr penodol, sy'n rhoi manylion am y Llwybrau Taith unigol, gan gynnwys gweithgareddau cymwys, costau a gwybodaeth sy'n benodol i'r sector.

Sylwch
fod Canllawiau'r Rhaglen 2022 yn berthnasol i geisiadau a gyflwynir i, a phrosiectau a ariennir gan, alwadau cyllid 2022 Taith yn unig.

2. Trosolwg

2. Trosolwg

Nod Taith yw rhoi cyfle i gyfranogwyr o bob oedran a chefndir ledled Cymru elwa ar gyfleoedd rhyngwladol. Bydd y rhaglen bedair blynedd hon yn galluogi dysgwyr, pobl ifanc, gwirfoddolwyr, ymchwilwyr a staff ar draws y sectorau addysg ac ieuenctid i ymgymryd â symudedd rhyngwladol, a all amrywio o rai dyddiau i flwyddyn o hyd.

Gan wreiddio ymagwedd ryngwladol ym mhob lefel o'n system addysg, mae Taith ar gyfer pobl ym mhob rhan o Gymru, ac ym mhob math o ddysgu – ysgolion, ieuenctid, addysg bellach ac addysg a hyfforddiant galwedigaethol, addysg oedolion ac addysg uwch. Bydd cyfranogwyr nid yn unig yn datblygu eu sgiliau ac yn cael profiadau, ond hefyd yn hyrwyddo Cymru i'r byd ac yn cyfleu'r neges fod Cymru'n edrych tuag allan, yn gydweithredol ac yn barod i arloesi mewn addysg.

Yn gyfnewid, byddwn yn croesawu dysgwyr ac addysgwyr o bob cwr o'r byd i Gymru. Byddant yn cyflwyno dulliau a syniadau newydd i'n sectorau addysg ac yn sicrhau bod ystafelloedd dosbarth a champysau ar draws ein gwlad ddwyieithog yn fwy amrywiol a diwylliannol fyth.

Mae Taith ar gyfer unigolion yn y sectorau canlynol yng Nghymru:

- Ysgolion
- Leuenctid
- Addysg Bellach, Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol
- Addysg Oedolion
- Addysg Uwch

2.a Ein nodau

Pum prif amcan Taith yw:

1. Cyflwyno rhaglen gynhwysol, Cymru-gyfan er mwyn cael rhagor o bobl i gymryd rhan mewn cyfnewidiadau rhyngwladol er mwyn, ehangu gorwelion a hyder pobl ifanc, dysgwyr a staff ar bob lefel yng Nghymru, rhoi cyfleoedd sy'n gwella bywyd iddynt, ac er mwyn eu cefnogi i fod yn uchelgeisiol ac yn ddysgwyr galluog trwy gydol eu bywydau.

2. Hyrwyddo cydweithio rhwng sefydliadau yng Nghymru a sefydliadau rhyngwladol sy'n galluogi cyfnewidiadau dysgu dwyffordd i roi budd i bawb dan sylw, adeiladu cysylltiadau rhyngwladol, a chefnogi'r sectorau addysg, gan gynnwys addysg ieuenctid ac oedolion.

3. Annog gweithgareddau uchelgeisiol, arloesol a chreadigol o'r radd flaenaf ym maes cyfnewidiadau addysg rhyngwladol a chydweithio.

4. Codi proffil rhyngwladol Cymru fel cenedl agored, eangfrydig a chyfrifol yn fyd-eang, sydd wedi ymrwymo i adeiladu ar ei hetifeddiaeth o bartneriaethau a chysylltiadau rhyngwladol.

5. Helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran trawsnewid ymgysylltu rhyngwladol, ac o ran datblygu rhagoriaeth yn y sectorau addysg rhyngwladol ac ieuenctid, trwy gamau cynaliadwy sydd yn rhoi budd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru.

2.b Ein hymrwymiadau

Gan ein bod am i Taith roi budd i bawb sy'n gysylltiedig, a rhoi budd i'r gymuned ehangach, rydym wedi ymrwymo i:

2.c Cyrff Trefnu Sector

Mae cyllid Taith wedi'i ddyfarnu i sawl sefydliad i sefydlu Cyrff Trefnu Sector. Eu rôl yw cefnogi sefydliadau yn eu sectorau i ymgysylltu â chyfleoedd Taith, ar ein rhan ni. Mae gan y Cyrff Trefnu Sector wyodaeth arbenigol mewn symudedd rhyngwladol, gan gynnwys profiad uniongyrchol o'r sectorau sy'n cael eu cefnogi gan Taith.

Mae'r Cyrff Trefnu Sector yn rhan o'u sectorau perthnasol, a byddant yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o Taith. Byddant hefyd yn helpu sefydliadau yn eu sector i ddeall sut y gallai'r cyllid sydd ar gael fod o fudd iddynt, sut i gael gafael arno a chynnal gweithgareddau llwyddiannus. Maent yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo Taith a hwyluso'r gwaith o greu a chynnal gweithgareddau'n llwyddiannus. Eu rôl yw helpu i ennyn diddordeb yn eang, annog a helpu sefydliadau i baratoi cais, gan gynnwys meithrin partneriaethau, a lle bo'n berthnasol, hyrwyddo cydweithio ar draws sectorau. I gael rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer y Cyrff Trefnu Sector ewch i wefan Taith.

3. Pwy all wneud cais/cymryd rhan yn y rhaglen

Mae Taith ar agor i geisiadau gan sefydliadau a reoleiddir neu sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru, ac sy'n gweithredu o Gymru, oni nodir yn wahanol ym meini prawf cymhwysedd y sector. Mae meini prawf cymhwysedd ar gyfer pob sector i'w gweld isod.

Mae'r rheolau ariannu canlynol yn berthnasol i bob sector a phob llwybr:

- Ni all unigolion wneud cais yn uniongyrchol am gyllid.
- Nid oes angen i gyfranogwyr fod yn ddinasyddion y DU.
- Ni chaniateir dyblu gweithgareddau ariannu a ariennir eisoes drwy raglenni ariannu cenedlaethol neu ryngwladol eraill.

3.a Cymhwysedd - Sefydliadau sy'n gwneud cais

Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer pob sector isod.

Sector Ysgolion

Sefydliadau cymwys sy'n gwneud cais:

- Unrhyw ysgol sy'n cael ei hariannu neu ei chynnal gan awdurdod lleol ac sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru, ac sy'n gweithredu o Gymru, sy'n darparu addysg gyffredinol neu alwedigaethol i blant a phobl ifanc rhwng 4 a 19 oed ac a arolygir gan ESTYN;
- Unrhyw un o 22 awdurdod lleol Cymru; neu
- Gonsortiwm sy'n cynnwys un sefydliad arweiniol sy'n gwneud cais ar ran nifer o ysgolion. Rhaid i'r consortiwm gynnwys o leiaf un ysgol sy'n cael ei hariannu a'i chynnal gan awdurdod lleol ac sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru, ac sy'n gweithredu o Gymru, a gall hefyd gynnwys awdurdodau lleol neu ranbarthol, cyrff cydgysylltu ysgolion neu fenter gymdeithasol neu sefydliadau eraill sydd â rôl ym maes addysg ysgolion. Rhaid i bob aelod o'r consortiwm gael ei reoleiddio neu ei gofrestru yng Nghymru, a gweithredu o Gymru, a rhaid i unrhyw ysgolion yn y consortiwm gael eu hariannu neu eu cynnal gan awdurdod lleol a'u cofrestru yng Nghymru, ac sy'n gweithredu ohoni.

Sefydliadau derbyn cymwys:
Gall y sefydliadau sy'n gwneud cais yng Nghymru, fel y'u diffinnir uchod, anfon eu cyfranogwyr i'r sefydliadau derbyn canlynol y tu allan i'r DU a Thiriogaethau Tramor Prydain, neu (ar gyfer profiadau teithio cyflwyniadol yn unig) y tu allan i Gymru i sefydliadau derbyn yng ngweddill y DU (er mwyn sicrhau cynwysoldeb neu gyfranogiad):

- Ysgol(ion) sy'n darparu addysg gyffredinol ar lefel cyn-gynradd, cynradd neu uwchradd, a gydnabyddir ac a reoleiddir gan awdurdodau cymwys y wlad y mae'r ysgol wedi'i chofrestru ynddi;
- Unrhyw sefydliad cyhoeddus neu breifat sy'n weithgar yn y farchnad lafur neu ym meysydd addysg, hyfforddiant ac ieuenctid. Er enghraifft, gall sefydliad o'r fath fod yn:
    - fenter gyhoeddus neu breifat, menter fach, ganolig neu fawr (gan gynnwys mentrau cymdeithasol);
    - corff cyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol;
    - partner cymdeithasol neu gynrychiolydd arall o fywyd gwaith, gan gynnwys siambrau masnach, cymdeithasau crefft/proffesiynol, ac undebau llafur;
    - sefydliad ymchwil;
    - sefydliad;
    - ysgol/sefydliad/canolfan addysgol (ar unrhyw lefel, o'r ysgol gynradd i addysg uwchradd uwch, a chan gynnwys addysg alwedigaethol);
    - sefydliad dielw, cymdeithas, sefydliad anllywodraethol (NGO);
    - corff sy'n darparu arweiniad gyrfa, cwnsela proffesiynol a gwasanaethau gwybodaeth.

Sefydliadau anfon cymwys (symudedd mewnol):
Gall ysgolion a chonsortia sydd wedi'u cofrestru a'u gweithredu y tu allan i'r DU a Thiriogaethau Tramor Prydain anfon cyfranogwyr cymwys i'w cynnal yng Nghymru.

Gall sefydliadau anfon fod yn:

- Ysgol(ion) sy'n darparu addysg gyffredinol neu alwedigaethol i blant a phobl ifanc rhwng 4 a 19 oed, a gydnabyddir gan awdurdodau cymwys y wlad y mae'r ysgol wedi'i chofrestru ynddi; neu
- Awdurdodau cyhoeddus lleol, rhanbarthol neu genedlaethol, cyrff cydgysylltu a sefydliadau eraill sydd â rôl ym maes addysg ysgol; neu
- Consortiwm o sefydliadau/darparwyr, fel y'u diffinnir uchod, ym maes addysg ysgol. Rhaid i bob aelod o gonsortiwm o'r fath fod wedi'i gofrestru a'i weithredu y tu allan i'r DU a Thiriogaethau Tramor Prydain.

Sector Ieuenctid

Mae gwaith ieuenctid a darpariaeth cymorth ieuenctid yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, a'u galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u lle mewn cymdeithas – gan eu helpu i gyrraedd eu llawn botensial. Cynigir darpariaeth ieuenctid drwy awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, gan roi cyfleoedd i bob person ifanc rhwng 11 a 25 oed, gan eu cefnogi drwy ddatblygiadau sylweddol yn eu bywydau, gan eu cynorthwyo i ddeall eu hawliau a'u hannog i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau.

Sefydliadau cymwys sy'n gwneud cais:
Sefydliadau a grwpiau sy'n cael eu rheoleiddio neu eu cofrestru yng Nghymru, ac sy'n gweithredu o Gymru, sy'n gweithio ym maes ieuenctid gan gynnwys:

- Cyrff cyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol;
- Sefydliadau anllywodraethol, mentrau cymdeithasol a sefydliadau dielw, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i elusennau cofrestredig a chymdeithasau corfforedig elusennol, cwmnïau budd cymunedol, cwmnïau cyfyngedig drwy warant;
- Consortiwm o sefydliadau/darparwyr sy'n cynnwys un sefydliad arweiniol sy'n gwneud cais ar ran nifer o ddarparwyr gwasanaethau ieuenctid ym maes ieuenctid. Rhaid i bob aelod o gonsortiwm o'r fath gael ei reoleiddio neu ei gofrestru yng Nghymru, ac gweithredu o Gymru.

Gall sefydliadau sy'n gweithio ym maes ieuenctid, nad ydynt wedi'u rheoleiddio neu eu cofrestru yng Nghymru ond sydd (i) yn cael eu rheoleiddio neu eu cofrestru yn y DU neu ran ohoni, a (ii) sy'n gweithredu'n llawn neu'n rhannol o Gymru, hefyd fod yn gymwys i wneud cais ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- Cyflwynir tystiolaeth foddhaol i ddangos:
    - sut y bydd gweithgarwch arfaethedig y rhaglen o fudd i Gymru a
    - bod y cyfranogwyr arfaethedig naill ai (i) ar gyfer lleoliad cyfnewid allanol, cyfranogwyr sy'n ymgymryd â gweithgarwch dysgu yng Nghymru, neu (ii) ar gyfer lleoliad cyfnewid mewnol, bydd y cyfranogwyr yn ymgymryd â gweithgarwch dysgu yng Nghymru.

Sefydliadau derbyn cymwys:
Yn gyffredinol, gall y sefydliadau sy'n gwneud cais sy'n gweithio ym maes ieuenctid yng Nghymru, fel y'u diffinnir uchod, anfon eu cyfranogwyr i'r sefydliadau derbyn canlynol y tu allan i'r DU neu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, y tu allan i Gymru i sefydliadau sy'n derbyn yng ngweddill y DU (er mwyn sicrhau cynwysoldeb neu gyfranogiad):

- Unrhyw sefydliad cyhoeddus neu breifat sy'n weithgar yn y farchnad lafur neu ym meysydd addysg, hyfforddiant ac ieuenctid, a gydnabyddir neu a reoleiddir gan awdurdodau cymwys y wlad y mae darparwr y sefydliad yn gweithredu ynddi ac yn cael ei hymgorffori a/neu'n byw ynddi. Er enghraifft, gall sefydliad o'r fath fod yn:

- fenter gyhoeddus neu breifat, menter fach, ganolig neu fawr (gan gynnwys mentrau cymdeithasol);
- corff cyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol;
- partner cymdeithasol neu gynrychiolydd arall o fywyd gwaith, gan gynnwys siambrau masnach, cymdeithasau crefft/proffesiynol, ac undebau llafur;
- sefydliad ymchwil;
- sefydliad;
- ysgol/sefydliad addysg bellach/canolfan addysgol (ar unrhyw lefel, o ysgol gynradd i addysg uwchradd uwch, a chan gynnwys addysg alwedigaethol); sefydliad di-elw, cymdeithas, sefydliad anllywodraethol (NGO); corff sy'n darparu arweiniad gyrfa, cwnsela proffesiynol a gwasanaethau gwybodaeth.

Sefydliadau anfon cymwys (symudedd mewnol):
Gall sefydliadau ieuenctid sydd wedi'u cofrestru ac yn gweithredu y tu allan i'r DU a Thiriogaethau Tramor Prydain anfon cyfranogwyr cymwys i'w cynnal yng Nghymru.

Gall sefydliadau anfon fod yn sefydliadau, wedi'u cofrestru gyda'r corff/cyrff rheoleiddio perthnasol, sy'n gweithio ym maes ieuenctid gan gynnwys:

- Cyrff cyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol; a
- Sefydliadau anllywodraethol, mentrau cymdeithasol a sefydliadau dielw.

Addysg Oedolion

Darperir addysg oedolion i oedolion i wella eu cymwysterau technegol neu broffesiynol, neu eu galluogi i gaffael gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau neu adnewyddu neu ddiweddaru eu gwybodaeth mewn maes penodol.

Sefydliadau cymwys sy'n gwneud cais:
Unrhyw sefydliad sy'n cael ei reoleiddio neu ei gofrestru yng Nghymru, ac sy'n gweithredu o Gymru, sy'n darparu addysg ffurfiol ac heb fod yn ffurfiol i oedolion, gan gynnwys:

- Awdurdodau cyhoeddus lleol a rhanbarthol, cyrff cydgysylltu a sefydliadau eraill sydd wedi'u cofrestru ac sy'n gweithredu o Gymru sydd â rôl ym maes addysg oedolion.
- Sefydliadau anllywodraethol, mentrau cymdeithasol a sefydliadau dielw, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i elusennau cofrestredig a chymdeithasau corfforedig elusennol, cwmnïau budd cymunedol, cwmnïau cyfyngedig drwy warant;
- Consortiwm o sefydliadau/darparwyr, sy'n cynnwys un sefydliad arweiniol sy'n gwneud cais ar ran nifer o ddarparwyr addysg oedolion, ym maes addysg oedolion. Rhaid i bob aelod o'r consortiwm gael ei reoleiddio neu ei gofrestru yng Nghymru, a bod yn gweithredu o Gymru.

Gall sefydliadau sy'n darparu addysg oedolion ffurfiol a heb fod yn ffurfiol, nad ydynt wedi'u rheoleiddio neu eu cofrestru yng Nghymru ond sydd (i) yn cael eu rheoleiddio neu gofrestru yn y DU neu ran ohoni, a (ii) yn gweithredu'n llawn neu'n rhannol o Gymru, hefyd fod yn gymwys i wneud cais ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- Cyflwynir tystiolaeth foddhaol i ddangos:
    - sut y bydd gweithgarwch arfaethedig y rhaglen o fudd i Gymru a
    - bod y cyfranogwyr arfaethedig naill ai (i) ar gyfer lleoliad cyfnewid allanol, cyfranogwyr sy'n ymgymryd â gweithgarwch dysgu yng Nghymru, neu (ii) ar gyfer lleoliad cyfnewid mewnol, bydd y cyfranogwyr yn ymgymryd â gweithgarwch dysgu yng Nghymru.

Sefydliadau derbyn cymwys:
Yn gyffredinol, gall y sefydliadau sy'n gwneud cais, fel y'u diffinnir uchod, anfon eu cyfranogwyr at y sefydliadau derbyn canlynol y tu allan i'r DU neu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, y tu allan i Gymru i sefydliadau sy'n derbyn yng ngweddill y DU (er mwyn sicrhau cynwysoldeb neu gyfranogiad):

- Unrhyw sefydliad cyhoeddus neu breifat sy'n darparu addysg oedolion a gydnabyddir ac a reoleiddir gan awdurdodau cymwys y wlad y mae'r darparwr yn gweithredu ynddi ac wedi'i ymgorffori a/neu sefydlu ynddi;
- Unrhyw sefydliad cyhoeddus neu breifat sy'n weithgar yn y farchnad lafur neu ym meysydd addysg, hyfforddiant a dysgu oedolion. Er enghraifft, gall sefydliad o'r fath fod yn:
    - fenter gyhoeddus neu breifat, menter fach, ganolig neu fawr (gan gynnwys mentrau cymdeithasol);
    - corff cyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol;
    - partner cymdeithasol neu gynrychiolydd arall o fywyd gwaith, gan gynnwys siambrau masnach, cymdeithasau crefft/proffesiynol, ac undebau llafur;
    - sefydliad;
    - sefydliad di-elw, cymdeithas, sefydliad anllywodraethol (NGO).

Sefydliadau anfon cymwys (symudedd mewnol):
Gall darparwyr addysg oedolion sy'n cael eu rheoleiddio neu sydd wedi'u cofrestru ac sy'n gweithredu y tu allan i'r DU a Thiriogaethau Tramor Prydain anfon cyfranogwyr cymwys i'w cynnal yng Nghymru.

Gall sefydliadau anfon fod yn:

- Unrhyw sefydliad cyhoeddus, neu breifat, sydd wedi'i gofrestru gyda'r corff/cyrff rheoleiddio perthnasol, sy'n darparu addysg i oedolion; neu
- Gyrff cydgysylltu cenedlaethol neu ranbarthol sy'n goruchwylio'r ddarpariaeth addysg i oedolion.

Addysg Bellach (AB) ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG)

AB

Addysg bellach yn gyffredinol yw addysg a ddarperir i fyfyrwyr neu ddysgwyr dros 16 oed nad ydynt bellach o oedran ysgol gorfodol. Mae addysg bellach yn cynnwys darpariaeth nad yw'n addysg uwchradd orfodol nac sy'n rhan o addysg uwch a gall gynnwys darpariaeth alwedigaethol.

Sefydliadau cymwys sy'n gwneud cais:

- Unrhyw sefydliad cyhoeddus neu breifat sy'n cael ei reoleiddio neu ei gofrestru yng Nghymru, ac sy'n gweithredu o Gymru sy'n weithgar ym maes addysg bellach, ac sy'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau ar wahanol lefelau o fewn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, gan arwain at gymwysterau achrededig;
- Cyrff cydgysylltu cenedlaethol, rhanbarthol neu leol sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn goruchwylio darpariaeth addysg bellach;
- Consortiwm o sefydliadau/darparwyr, sy'n cynnwys un sefydliad arweiniol sy'n gwneud cais ar ran nifer o ddarparwyr addysg bellach, ym maes addysg bellach. Rhaid i bob aelod o'r consortiwm gael ei reoleiddio neu ei gofrestru yng Nghymru, a bod yn gweithredu o Gymru.

Sefydliadau derbyn cymwys:

Gall y sefydliadau sy'n gwneud cais, fel y'u diffinnir uchod, anfon eu cyfranogwyr i'r sefydliadau derbyn canlynol y tu allan i'r DU neu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, y tu allan i Gymru i sefydliadau sy'n derbyn yng ngweddill y DU (er mwyn sicrhau cynwysoldeb neu gyfranogiad):

- Unrhyw sefydliad cyhoeddus neu breifat sy'n darparu addysg bellach, a gydnabyddir ac a reoleiddir gan awdurdodau cymwys y wlad y mae'r darparwr yn gweithredu ynddi ac wedi'i ymgorffori a/neu sefydlu ynddi;
- Unrhyw sefydliad cyhoeddus neu breifat sy'n weithgar yn y farchnad lafur neu ym meysydd addysg, hyfforddiant a dysgu oedolion. Er enghraifft, gall sefydliad o'r fath fod yn:
    - fenter gyhoeddus neu breifat, menter fach, ganolig neu fawr (gan gynnwys mentrau cymdeithasol);
    - corff cyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol;
    - partner cymdeithasol neu gynrychiolydd arall o fywyd gwaith, gan gynnwys siambrau masnach, cymdeithasau crefft/proffesiynol, ac undebau llafur;
    - sefydliad;
    - sefydliad di-elw, cymdeithas, sefydliad anllywodraethol (NGO).

AHG

Mae'r sector Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yn cynnig ystod eang o gyrsiau/sgiliau sy'n helpu myfyrwyr neu ddysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau sy'n uniongyrchol berthnasol i alwedigaethau neu gyflogaeth benodol. Gall gwmpasu cymwysterau galwedigaethol a hyfforddiant yn y gwaith.

Sefydliadau cymwys sy'n gwneud cais:
Unrhyw sefydliad cyhoeddus neu breifat sy'n cael ei reoleiddio neu ei gofrestru yng Nghymru, ac sy'n gweithredu o Gymru sy'n weithgar ym maes addysg a hyfforddiant galwedigaethol, sy'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau, gan arwain at gymwysterau achrededig, gan gynnwys:

- Cyrff cydgysylltu cenedlaethol sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn goruchwylio'r ddarpariaeth addysg neu hyfforddiant ym maes addysg a hyfforddiant galwedigaethol;
- Cwmnïau a sefydliadau cyhoeddus neu breifat eraill sy'n cynnal, hyfforddi neu fel arall yn gweithio gyda dysgwyr a phrentisiaid mewn addysg a hyfforddiant galwedigaethol;
- Consortiwm o sefydliadau, sy'n cynnwys un sefydliad arweiniol sy'n gwneud cais ar ran nifer o ddarparwyr addysg a hyfforddiant galwedigaethol, ym maes addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Rhaid i bob aelod o'r consortiwm gael ei reoleiddio neu ei gofrestru yng Nghymru, a gweithredu ohoni

Gall sefydliadau sy'n weithgar ym maes addysg a hyfforddiant galwedigaethol, sy'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau, sy'n arwain at gymwysterau achrededig, nad ydynt wedi eu rheoleiddio neu eu cofrestru yng Nghymru ond sydd (i) yn cael eu rheoleiddio neu eu cofrestru yn y DU neu ran ohoni, a (ii) yn gweithredu'n llawn neu'n rhannol o Gymru, hefyd fod yn gymwys i wneud cais ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- **Cyflwynir tystiolaeth foddhaol i ddangos:**
- sut y bydd gweithgarwch arfaethedig y rhaglen o fudd i Gymru; a
- bod y cyfranogwyr arfaethedig naill ai (i) ar gyfer lleoliad cyfnewid allanol, cyfranogwyr sy'n ymgymryd â gweithgarwch dysgu yng Nghymru, neu (ii) ar gyfer lleoliad cyfnewid mewnol, bydd y cyfranogwyr yn ymgymryd â gweithgarwch dysgu yng Nghymru.

- **Sefydliadau derbyn cymwys:**

Yn gyffredinol, gall y sefydliadau sy'n gwneud cais, fel y'u diffinnir uchod, anfon eu cyfranogwyr at y sefydliadau derbyn canlynol y tu allan i'r DU neu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, y tu allan i Gymru i sefydliadau sy'n derbyn yng ngweddill y DU (er mwyn sicrhau cynwysoldeb neu gyfranogiad):

- Unrhyw sefydliad cyhoeddus neu breifat sy'n weithgar ym maes addysg a hyfforddiant galwedigaethol a gydnabyddir ac a reoleiddir gan awdurdodau cymwys y wlad y mae'r darparwr yn gweithredu ynddi ac sydd wedi'i ymgorffori a/neu sefydlu ynddi;
- Unrhyw sefydliad cyhoeddus neu breifat sy'n weithgar yn y farchnad lafur neu ym meysydd addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Er enghraifft, gall sefydliad o'r fath fod yn:
    - fenter gyhoeddus neu breifat, menter fach, ganolig neu fawr (gan gynnwys mentrau cymdeithasol);
    - corff cyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol;
    - partner cymdeithasol neu gynrychiolydd arall o fywyd gwaith, gan gynnwys siambrau masnach, cymdeithasau crefft/proffesiynol, ac undebau llafur;
    - sefydliad;
    - sefydliad di-elw, cymdeithas, sefydliad anllywodraethol (NGO).

Sefydliadau anfon cymwys (symudedd mewnol):
Gall darparwyr Addysg Bellach ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol sydd wedi'u cofrestru ac yn gweithredu y tu allan i'r DU a Thiriogaethau Tramor Prydain anfon cyfranogwyr cymwys i'w cynnal yng Nghymru.

Gall sefydliadau anfon fod yn:

- Unrhyw sefydliad cyhoeddus, neu breifat, sydd wedi'i gofrestru gyda'r corff/cyrff rheoleiddio perthnasol, sy'n darparu addysg a hyfforddiant galwedigaethol; neu
- Cyrff cydgysylltu cenedlaethol neu ranbarthol sy'n goruchwylio'r ddarpariaeth addysg neu hyfforddiant ym maes addysg a hyfforddiant galwedigaethol.

Addysg Uwch (AU)

Addysg drydyddol yw addysg uwch nad yw'n gyfystyr ag addysg bellach (ond gall darparwyr addysg bellach ei darparu). Yn gyffredinol, mae'n arwain at gymhwyster penodedig ar lefel 4-8.

Mae enghreifftiau o addysg uwch yn cynnwys:

- Lefel 4 – Tystysgrif Addysg Uwch
- Lefel 5 – Gradd sylfaen
- Lefel 6 – Gradd gydag anrhydedd
- Lefel 7 – Gradd Meistr Integredig / Diploma ôl-raddedig
- Lefel 8 – Doethuriaeth

Sefydliadau cymwys sy'n gwneud cais:

- Unrhyw sefydliad addysg uwch (SAU) yng Nghymru, a reoleiddir neu a ariennir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC);
- Darparwr addysg uwch, y mae ei gyrsiau wedi'u dynodi'n benodol at ddibenion bod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, ac sy'n gweithredu yng Nghymru.

Sefydliadau derbyn cymwys:
Gall sefydliadau cymwys sy'n gwneud cais yng Nghymru anfon cyfranogwyr cymwys i'r sefydliadau derbyn canlynol sydd y tu allan i'r DU a Thiriogaethau Tramor Prydain:

- Darparwr AU sy'n cael ei gydnabod neu ei reoleiddio gan yr awdurdodau cymwys cenedlaethol perthnasol neu gorff/cyrff rheoleiddio'r wlad y mae'r darparwr AU yn gweithredu ynddi ac wedi'i hymgorffori a/neu'n byw ynddi (gan gynnwys campysau tramor a weithredir gan SAU yng Nghymru);
- Unrhyw sefydliad cyhoeddus neu breifat sy'n weithgar yn y farchnad lafur neu ym meysydd addysg, hyfforddiant ac ieuenctid. Er enghraifft, gall sefydliad o'r fath fod yn:
    - fenter gyhoeddus neu breifat, menter fach, ganolig neu fawr (gan gynnwys mentrau cymdeithasol);
    - corff cyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol;

- partner cymdeithasol neu gynrychiolydd arall o fywyd gwaith, gan gynnwys siambrau masnach, cymdeithasau crefft/proffesiynol, ac undebau llafur;
- sefydliad ymchwil;
- sefydliad;
- ysgol/sefydliad/canolfan addysgol (ar unrhyw lefel, o'r ysgol gynradd i addysg uwchradd uwch, ac yn cynnwys addysg uwch, addysg alwedigaethol bellach ac addysg i oedolion);
- sefydliad nid er elw, cymdeithas, sefydliad anllywodraethol (NGO);
- corff sy'n darparu arweiniad gyrfa, cwnsela proffesiynol a gwasanaethau gwybodaeth.

Sefydliadau anfon cymwys (symudedd mewnol):
Gall darparwyr Addysg Uwch sydd wedi'u cofrestru gyda'r corff/cyrff rheoleiddio perthnasol ac sy'n gweithredu y tu allan i'r DU a Thiriogaethau Tramor Prydain anfon cyfranogwyr cymwys i'w cynnal yng Nghymru.

Disgwylir i gyfranogwyr cymwys gael eu cynnal yn y sefydliad sy'n gwneud cais yng Nghymru. Gall y sefydliad sy'n gwneud cais drefnu i'r cyfranogwr gael ei gynnal gan drydydd parti, mewn amgylchiadau eithriadol.

3.b. Partneriaid rhyngwladol

- **Y sefydliad sy'n gwneud cais** yw'r sefydliad yng Nghymru sy'n gwneud cais am gyllid i Taith.
- **Y sefydliad sy'n derbyn** yw'r sefydliad partner rhyngwladol a fydd yn croesawu cyfranogwyr o'r sefydliad sy'n gwneud cais, neu'n gweithredu fel partner rhyngwladol mewn cydweithrediad strategol.
- **Mae'r sefydliad sy'n anfon** yn sefydliad sydd wedi'i gofrestru ac yn gweithredu y tu allan i'r DU sy'n anfon cyfranogwyr i'w lletya gan y sefydliad sy'n gwneud cais fel rhan o leoliad cyfnewid mewnol.

Ceir gwybodaeth am sefydliadau partner rhyngwladol cymwys (sefydliadau derbyn ac anfon) yn yr adran cymhwysedd isod. Ceir gwybodaeth am weithgareddau cymwys, cyfranogwyr a chostau ar gyfer sefydliadau sy'n gwneud cais a sefydliadau partner yn y Canllawiau Rhaglen Llwybr perthnasol.

Bydd sefydliadau sy'n gwneud cais yng Nghymru sy'n cael cyllid Taith yn gyfrifol am sicrhau bod ganddynt gytundeb(au) priodol ar waith gyda'r sefydliadau sy'n derbyn cyn i weithgarwch prosiect neu symudedd allanol ddechrau. Bydd yn ofynnol i sefydliadau sy'n anfon gael cytundeb(au) priodol gyda'r sefydliadau sy'n gwneud cais yng Nghymru cyn i unrhyw symudedd mewnol ddigwydd.

3.c. Cydgyfnewid

Mae Taith yn ariannu sefydliadau cymwys yng Nghymru i ymgymryd â symudedd allanol a chymryd rhan mewn cydweithrediadau strategol. Mae egwyddorion dwyochredd a dysgu ar y cyd yn ganolog i Taith ac felly mae gennym arian grant ychwanegol ar gael y gall sefydliadau wneud cais amdano i ariannu gweithgarwch partner rhyngwladol.

Llwybr 1
Gall sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid ar gyfer symudedd allanol yn Llwybr 1 Taith wneud cais am gyllid ychwanegol ar gyfer lleoliad cyfnewid mewnol i Gymru. Bydd hyn yn cael ei gyfrifo fel uchafswm o 30% o gyllideb prosiect a ddyrennir ar gyfer gweithgareddau symudedd allanol ac sy'n cael ei dalu ar ben y swm a neilltuwyd ar gyfer gweithgareddau symudedd allanol. Bydd cyllid ar gyfer lsymudedd mewnol yn cael ei gynnwys yn y dyfarniad grant i'r sefydliadau hynny sy'n gwneud cais yn llwyddiannus yng Nghymru a'u cyfrifoldeb nhw fydd trosglwyddo'r cyllid dan sylw i'r sefydliad sy'n anfon, ac ar ei ran.

Llwybr 2
Gall sefydliadau sy'n gwneud cais am arian ar gyfer prosiectau Partneriaethau a Chydweithio Strategol yn Llwybr 2 Taith wneud cais am arian ychwanegol ar gyfer gweithgareddau'r partner rhyngwladol. Bydd hyn yn cael ei gyfrifo fel uchafswm o 30% o gyllideb prosiect a ddyrennir ar gyfer y sefydliad o Gymru ac yn cael ei dalu ar ben y swm ar gyfer gweithgareddau'r sefydliad o Gymru. Bydd cyllid ar gyfer gweithgareddau partner yn cael ei gynnwys yn y dyfarniad grant i'r sefydliadau hynny sy'n gwneud cais yn llwyddiannus yng Nghymru a'u cyfrifoldeb nhw fydd trosglwyddo'r cyllid dan sylw i'r sefydliad partner, ac ar ei ran.

Ceir rhagor o wybodaeth am gyllid cyfatebol yng Nghanllawiau Rhaglen Llwybr 1 a 2.

3.d. Cyrchwledydd a thiriogaethau cymwys

- Mae Taith ar agor i bob gwlad yn y byd, ond mae'n rhaid dilyn cyngor teithio Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) Llywodraeth y DU. Os bydd FCDO yn cynghori yn erbyn teithio i wledydd/rhanbarthau penodol, ni fydd Taith yn ariannu teithio i'r wlad honno. Pan fydd amgylchiadau'n newid mewn gwlad y mae buddiolwyr yn cynllunio lleoliad cyfnewid ynddi, gan arwain at gyngor FCDO yn erbyn teithio tramor, rhaid i'r buddiolwr wneud trefniadau amgen megis ad-drefnu'r lleoliad cyfnewid i gyrchwlad wahanol. Cyn gwneud unrhyw newidiadau, dylai buddiolwyr gysylltu â Gweithrediaeth Taith i drafod/cytuno.

Mae cyrchwledydd wedi'u dosbarthu'n grwpiau ar sail y costau byw cymharol ym mhob gwlad:

- **Grŵp 1 (Costau byw uwch)**
- **Grŵp 2 (Costau byw canolig)**
- **Grŵp 3 (Costau byw is)**

Gweler Atodiad 1 - dosbarthiad gwledydd i gael rhagor o wybodaeth a rhestr lawn o wledydd a'u grwpiau.

4. Llwybrau ariannu

4. Llwybrau ariannu

Mae gan Taith dri llwybr ariannu:

Llwybr 1 – Lleoliadau cyfnewid cyfranogwyr

Mae'r llwybr hwn yn cefnogi symudedd allanol a mewnol corfforol, rhithwir a chyfunol ar gyfer unigolion neu grwpiau o unigolion, er mwyn rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu, gweithio neu wirfoddoli dramor am gyfnod byrdymor neu hirdymor hyblyg.

Mae Llwybr 1 yn agored i ymgeiswyr o sefydliadau ar draws holl sectorau Taith. Ceir gwybodaeth fanwl am weithgareddau cymwys, costau cymwys a hyd prosiectau ar gyfer pob sector yng Nghanllawiau Rhaglen Llwybr 1.

Llwybr 2 – Partneriaeth a chydweithio strategol

Mae'r llwybr hwn yn cefnogi datblygiad prosiectau cydweithredol rhyngwladol a arweinir gan sefydliadau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Llwybr 2 yn agored i sefydliadau yn y sectorau Ysgolion, Ieuenctid, AB/AHG ac Addysg Oedolion. Ceir gwybodaeth fanwl am weithgareddau cymwys, costau cymwys a hyd prosiectau yng Nghanllawiau Rhaglen Llwybr 2

Llwybr 3 – Cynyddu capasiti

Mae'r llwybr hwn yn cefnogi'r gwaith o gynyddu capasiti ar gyfer symudedd rhyngwladol.

Mae Llwybr 3 yn dal i gael ei ddatblygu a byddwn yn rhyddhau gwybodaeth ychwanegol yn 2023.

Mae dyddiadau cau ceisiadau ar gyfer pob llwybr i'w gweld yn y Canllawiau Rhaglen Llwybr perthnasol.

5. Cyn cyflwyno cais

5.a. Capasiti

Capasiti gweithredol
Mae'n rhaid i bob sefydliad sy'n gwneud cais fod â'r galluoedd proffesiynol angenrheidiol a'r gallu i neilltuo adnoddau a staff priodol sy'n cyd-fynd â maint eu prosiect Taith.

Capasiti ariannol
Rhaid i bob sefydliad sy'n gwneud cais ddangos bod ganddynt ffynhonnell sefydlog a digonol o incwm i gynnal gweithgareddau cymwys drwy gydol y cyfnod pan fydd prosiect Taith yn cael ei gynnal.

Gall Taith gynnal gwiriadau capasiti ariannol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Adolygiad o gyfrifon diweddaraf Tŷ'r Cwmnïau neu'r Comisiwn Elusennau, lle bo'n berthnasol.
- Adolygiad o gyfrifon rheoli diweddaraf y sefydliad.
- Adolygiad o ddogfennau llywodraethu'r sefydliad i gadarnhau y gall y sefydliad dderbyn y cyllid, paru enwau cyfrifon banc a gwiriadau eraill, lle bo'n berthnasol.
- Gwiriad o gofnodion asiantaethau gwirio credyd lle bo'n briodol.
- Adolygiad o gyfriflenni banc cyfredol y sefydliad yn dangos y balans terfynol

5.b. Llenwi'r ffurflen gais

I wneud cais am gyllid gan y rhaglen Taith, mae'n rhaid i sefydliadau lenwi ffurflen gais y Llwybr perthnasol, sydd ar gael ar wefan Taith.

Mae'r ffurflen gais yn gofyn am atebion naratif i ystod o gwestiynau gan gynnwys trosolwg o'r prosiect, manylion am y gweithgareddau arfaethedig fydd yn rhan o'r prosiect, manylion dulliau rheoli'r prosiect a'r cyllid, a manylion sy'n nodi ym mha ffyrdd mae'r prosiect yn cyd-fynd ag amcanion rhaglen Taith, i gyd yn gysylltiedig â'r Llwybr Taith penodol.

Ynghyd â chwblhau'r ffurflen gais, bydd yn ofynnol i sefydliadau sy'n gwneud cais gwblhau'r offeryn cyfrifo grant. Bydd yr adnodd hwn yn cyfrifo cyfanswm y grant y gwneir cais amdano yn seiliedig ar yr amrywiol weithgareddau y gwneir cais amdanynt. Ceir gwybodaeth am y cyfraddau grant ar gyfer pob Llwybr yn Atodiad 3 y canllawiau hyn.

Rydym yn argymell lawrlwytho'r adnoddau sydd ar gael sydd wedi'u dylunio a'u creu i gefnogi sefydliadau gyda'u cais. Mae'r rhain i'w gweld ar wefan Taith ac yn cynnwys y cwestiynau ansoddol a'r meini prawf asesu, canllawiau cam wrth gam ar wneud cais a gwybodaeth wedi'i recordio ymlaen llaw am lenwi'r ffurflen gais. Anogir pob ymgeisydd i gwblhau'r adrannau cais ansoddol all-lein, ac yna eu copïo a'u gludo i'r ffurflen gais ar-lein. Bydd hyn yn eu galluogi i weithio drwy'r adrannau wrth eu pwysau, heb y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio ar-lein. Pan fyddant wedi llenwi'r ffurflen gais all-lein, gallant gopïo'r cynnwys, ei ludo yn y mannau perthnasol ar-lein a chyflwyno'r cais.

Dim ond un cais y gall sefydliadau ei gyflwyno fesul sector ar gyfer pob galwad am gyllid ar gyfer Llwybr. Dylai ymgeiswyr sicrhau nad oes mwy nag un cais am yr un alwad am gyllid ar gyfer Llwybr penodol yn cael eu cyflwyno gan wahanol bartïon yn yr un sefydliad.

Mae'r dyddiadau cau ar gyfer galwadau ariannu Llwybr i'w gweld ar wefan Taith, neu ar fersiwn gyfredol pob Canllaw Rhaglen Llwybr.

6. Beth sy'n digwydd ar ôl cyflwyno cais

6. Beth sy'n digwydd ar ôl cyflwyno cais

6.a Trefn asesu

Bydd pob cais yn cael ei asesu drwy ddilyn **proses ymgeisio dau gam:**

Cam 1 – Cadarnhau bod y sefydliad yn gymwys a bod ganddo gapasiti ariannol.

Cam 2 – Asesiad allanol o'r cais yn erbyn y meini prawf asesu cyhoeddedig, a amlinellir yn y Canllaw Rhaglen Llwybr perthnasol.

Bydd Taith yn rhoi adborth i bob ymgeisydd. Bydd proses apelio ar gael (sy'n cael ei disgrifio yn yr adran berthnasol o'r Canllaw Rhaglen hwn).

Cam 1 – Cadarnhau bod y sefydliad yn gymwys a bod ganddo gapasiti ariannol

Ar Gam 1, bydd ceisiadau'n cael eu harchwilio gan Taith, a fydd yn cadarnhau bod pob cais:

- Yn cael ei gyflwyno gan sefydliad cymwys sy'n gwneud cais heb fod yn hwyrach na dyddiad cau'r alwad ar gyfer y llwybr
- Yn cael ei gyflwyno gan sefydliad sydd â statws endid cyfreithiol wedi'i ddilysu, capasiti ariannol digonol i gyflawni'r prosiect arfaethedig a'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith

Os bydd sefydliad sy'n gwneud cais yn cyflwyno mwy nag un cais i'r un llwybr sector yn yr un alwad, ni fydd yn bosibl uno ceisiadau lluosog a bydd Taith yn gofyn i'r sefydliad sy'n gwneud cais ddewis pa un o'r ceisiadau y mae am fwrw ymlaen ag ef.

Ar Gam 1, gall Taith ofyn am ddogfennau ategol ychwanegol er mwyn dilysu gwybodaeth a roddwyd yn y cais. Mae'n rhaid i ddogfennau o'r fath gael eu cyflwyno cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y cais. Os na fydd y wybodaeth ychwanegol ofynnol yn cael ei chyflwyno mewn pryd, bydd y cais naill ai'n cael ei asesu ar sail y wybodaeth gychwynnol a roddwyd neu, os yw'r wybodaeth yn ymwneud â chymhwysedd y sefydliad i gymryd rhan yn Taith, caiff y cais ei wrthod.

Os na ellir cadarnhau bod y sefydliad yn gymwys a bod ganddo gapasiti ariannol, ni fydd y cais yn symud ymlaen i Gam 2. Mae gan sefydliad a gyflwynodd gais sy'n aflwyddiannus ar Gam 1 yr hawl i apelio. Mae'r broses apelio i'w gweld yn adran 'apeliadau' y Canllaw Rhaglen.

Cam 2 – Asesiad ansoddol

Yng Ngham 2, caiff ceisiadau eu hasesu gan ddau aseswr allanol, annibynnol. Bydd pob cais yn destun:

- Asesiad ansoddol, i asesu i ba raddau y mae'r cais yn bodloni amcanion a meini prawf asesu rhaglen Taith.
- Dilysiad o weithgareddau arfaethedig y prosiect yn erbyn gweithgareddau a chostau cymwys.

6.b. Penderfynu dyfarnu grant

Mae gan bob Llwybr Taith feini prawf asesu ar wahân, a bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn eu herbyn. Bydd pob cais yn cael ei asesu gan ddau aseswr allanol. Er mwyn cael eu hystyried am gyllid, rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais ddangos yn eu cais sut maen nhw'n bodloni'r meini prawf asesu, a rhaid iddynt basio'r trothwy(on) ansawdd a osodwyd ar gyfer y Llwybr. Ceir gwybodaeth am y meini prawf asesu a'r trothwy(on) ansawdd yn y Canllaw Rhaglen Llwybr perthnasol.

Bydd sefydliadau sy'n llwyddo i wneud yr uchod yn cael eu hystyried yn rhai y gellid eu cyllido. Bydd ceisiadau nad ydynt yn cwrdd â'r trothwy(on) ansawdd gofynnol yn cael eu hystyried yn aflwyddiannus. Rhoddir adborth ynghylch pob cais.

Bydd y rhestr o geisiadau y bernir eu bod yn gymwys ar gyfer cyllid, wedi'u grwpio yn ôl llwybrau sector, yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Ariannu Taith perthnasol. Pwrpas y Pwyllgor yw craffu ar gadernid y broses asesu a rhoi sicrwydd ar yr argymhellion i Fwrdd Cyfarwyddwyr RhGRD Cyf fod yr asesiad wedi ei gynnal mewn modd teg a thryloyw. Mae aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys Cyfarwyddwr RhGRD Cyf, Cadeirydd Bwrdd Cynghori Taith ac arbenigwr annibynnol.

Mae gan y Pwyllgor Ariannu'r opsiwn i wrthod neu gytuno ar yr argymhellion, a gyflwynir wedyn i Fwrdd Cyfarwyddwyr RhGRD Cyf i'w cytuno'n derfynol.

Mae cynwysoldeb a hygyrchedd yn ffocws strategol ar gyfer Taith ac, felly, byddwn yn edrych i ariannu ystod mor eang â phosibl o sefydliadau, a chymaint ohonynt â phosibl. Ein nod, lle y bo'n bosibl, fydd ariannu pob sefydliad sy'n pasio'r broses asesu ac yr ystyrir felly ei fod yn gymwys i'w gyllido.

Mae cyllid Taith yn gyfyngedig ac mae'n debygol y ceir galwadau am gyllid lle bydd gwerth ceisiadau llwyddiannus sy'n 'gymwys i'w cyllido' yn uwch na'r gyllideb sydd ar gael i'w dyrannu. Lle nad oes digon o gyllideb i ariannu'r holl geisiadau yn llawn, gall Taith fabwysiadu dull gweithredu i leihau'r cyllid ar draws sefydliadau llwyddiannus ar sail deg. Lle nad yw'n bosibl ariannu pob cais llwyddiannus oherwydd lefel y galw, gellir sefydlu rhestr raddio i benderfynu pa geisiadau fydd yn cael eu hariannu.

Er bod Taith yn anelu at fod mor hygyrch a chynhwysol â phosibl, bydd gofyniad bob amser i sefydliadau sy'n gwneud cais basio trothwyon ansawdd penodol y Llwybr ac ni fydd pob cais yn llwyddiannus. Mae Taith wedi ymrwymo i ddarparu adborth a chefnogaeth i sefydliadau sy'n aflwyddiannus i'w galluogi a'u hannog i gyflwyno ceisiadau yn y dyfodol.

Cyfeiriwch at y Canllaw Rhaglen Llwybr perthnasol i gael rhagor o wybodaeth am y cyllid sydd ar gael gan gynnwys uchafswm gwerthoedd ceisiadau.

6.c. Hysbysiad o ganlyniad

Ar ôl i Fwrdd Cyfarwyddwyr RhGRD Cyf ystyried a chymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Ariannu, bydd yr holl ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad eu cais trwy e-bost gan Taith. Nod Taith yw rhoi gwybod i'r sefydliadau llwyddiannus cyn pen pedwar mis ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Bydd rhagor o wybodaeth ac adnoddau yn dilyn yr e-bost hwn, gan gynnwys llythyr Cytundeb Grant y prosiect. Bydd Taith hefyd yn ceisio hysbysu pob ymgeisydd aflwyddiannus trwy e-bost o fewn pedwar mis i'r dyddiad cau.

7. Beth sy'n digwydd pan fydd eich cais yn llwyddiannus

7. Beth sy'n digwydd pan fydd eich cais yn llwyddiannus

7.a. Cyfnewid Llythyr Cytundeb Grant

Ar ôl cael gwybod am ganlyniad eu cais, bydd sefydliadau sy'n gwneud cais llwyddiannus yn derbyn llythyr Cytundeb Grant gan Taith, a fydd yn rhoi manylion telerau ac amodau'r dyfarniad cyllid. Bydd llythyrau Cytundeb Grant a'r atodiadau cysylltiedig yn cael eu dosbarthu a'u llofnodi gan gynrychiolydd cyfreithiol y sefydliad sy'n gwneud cais.

Pan fydd y llythyr Cytundeb Grant wedi'i lofnodi gan y ddwy ochr, bydd y sefydliad sy'n gwneud cais yn dod yn 'fuddiolwr'. Mae hyn yn golygu y gall gweithgareddau'r prosiect fynd rhagddynt a bod modd gwario'r grant a ddyfarnwyd.

Nid yw dyfarnu grant mewn galwad ariannu benodol yn gosod hawl ar gyfer rowndiau'r dyfodol.

7.b. Talu cyllid grant

Yn dibynnu ar y Llwybr Taith a hyd y prosiect, efallai y bydd gan brosiectau a ddyfernir amserlenni talu gwahanol. Ar wahân i'r taliad rhag-ariannu cychwynnol, bydd taliadau neu adenillion pellach yn cael eu gwneud yn amodol ar gymeradwyaeth Taith i'r adroddiadau interim a'r adroddiadau terfynol y gofynnir amdanynt, fel y nodir yn y Cytundeb Grant.

Bydd taliad rhag-ariannu cychwynnol yn cael ei drosglwyddo i'r buddiolwr o fewn 30 diwrnod busnes i ddyddiad cydlofnodi'r llythyr cytundeb grant (yn amodol ar wiriadau capasiti ariannol boddhaol). Bwriad y cyllid cychwynnol yw rhoi'r llif arian i'r buddiolwr ddechrau gweithgareddau. Ni ellir defnyddio cyllid Taith i greu elw i'r buddiolwr, ac ni all hynny fod yn un o'i ddibenion, a dim ond ar gyfer y gweithgareddau cymwys sy'n benodol i'r prosiect y dylid ei ddefnyddio, fel y nodwyd yn y llythyr Cytundeb Grant. Felly ni ddylid defnyddio grant gan Taith i ariannu costau rhedeg craidd sefydliad, lle nad yw'r rhain yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflwyno cyfnewidfeydd dysgu rhyngwladol.

7.c. Rheoli prosiectau ac adrodd arnynt

Y buddiolwr sy'n gyfrifol am sut mae'r prosiect yn cael ei gyflawni a sut mae'r grant a gafwyd gan Taith yn cael ei ddefnyddio. Dylai buddiolwyr felly sicrhau bod gweithdrefnau rheoli prosiect ar waith sy'n eu galluogi i reoli'r prosiect a'r cyllid yn briodol. I gefnogi buddiolwyr yn hyn o beth, bydd Taith yn darparu adnoddau a chefnogaeth i alluogi buddiolwyr i dracio, rheoli ac adrodd ar eu prosiect a'u cyllid.

Adroddiadau buddiolwyr
Bydd angen i'r holl fuddiolwyr adrodd ar weithgareddau eu prosiect a'u cyllid. Un o ofynion y dyfarniad grant fydd diweddaru gwybodaeth y prosiect yn fisol, er mwyn galluogi Taith i weld cynnydd a gwariant. Bydd yna ofynion ychwanegol ar gyfer adroddiadau interim ac adroddiadau diwedd prosiect. Bydd yr holl fuddiolwyr yn cael manylion llawn am ddisgwyliadau adrodd cyn unrhyw geisiadau adrodd.

Adroddiadau cyfranogwyr
Efallai y bydd gofyn i gyfranogwyr sy'n ymgymryd â gweithgarwch symudedd unigol o dan Lwybr 1 gwblhau arolwg cyn gadael a chwblhau a chyflwyno arolwg terfynol ar ddiwedd eu lleoliad cyfnewid.

Efallai y bydd angen i fuddiolwyr sy'n ymgymryd â gweithgarwch symudedd grŵp o dan Lwybr 1 gwblhau arolwg cyn gadael a chwblhau a chyflwyno arolwg terfynol ar ddiwedd y symudedd sy'n cynrychioli barn yr holl gyfranogwyr.

7.d. Diogelu

Mae gan bob sefydliad sy'n gwneud cais gyfrifoldeb i ddiogelu lles cyfranogwyr sydd o dan 18 oed ac oedolion sy'n wynebu risg, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (a'r canllawiau diogelu cysylltiedig, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl), a Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (Canllaw i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ar drefniadau ar gyfer diogelu plant). Gall Gweithdrefnau Diogelu Cymru helpu sefydliadau i ddeall a chymhwyso'r dyletswyddau a nodir yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau. Mae gan bob lleoliad addysg yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod plant yn cael mynediad i amgylchedd dysgu diogel. Mae'n bwysig bod lleoliadau addysg yn glir o ran sut y maent yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc wrth wneud trefniadau ar gyfer ymweliadau cyfnewid tramor.

Mae angen i sefydliadau hefyd ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol ynglŷn â diogelu yn y wlad / tiriogaeth y byddant yn anfon unrhyw unigolion iddi a sicrhau bod eu prosesau / gweithdrefnau'n rhoi sylw i ddeddfwriaeth o'r fath, lle bo'n briodol.

Mae'n ofynnol i bob sefydliad sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Taith gael y canlynol:

- Polisi diogelu cyfredol
- Côd ymddygiad
- Proses glir ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelu
- Unigolyn a enwir sy'n gyfrifol am ddiogelu

Bydd gofyn i sefydliadau sy'n gwneud cais ac sy'n cynllunio gweithgareddau (gan gynnwys symudedd rhithwir) ar gyfer unigolion dan 18 oed neu oedolion mewn perygl gwblhau rhestr wirio diogelwch a chael cynlluniau a gweithdrefnau i sicrhau diogelwch y gweithgareddau hyn. Bydd y rhestr wirio diogelwch yn cael ei hanfon yn rhan o'r broses dyfarnu grant.

Mae'n rhaid i'r camau canlynol gael eu cymryd yn rhan o weithdrefnau diogelu sefydliad sy'n gwneud cais:

Cynllunio

- Gwneud asesiadau risg, a lle bo'n briodol, hysbysu'r awdurdod lleol o'r ymweliad.
- Cael trafodaethau gyda'r sefydliadau partner er mwyn deall eu polisïau a'u gweithdrefnau diogelu a chymryd camau i sicrhau diogelwch yr unigolion sy'n rhan o'r gweithgaredd bob amser.
- Os bydd y cyfranogwyr yn aros gyda theuluoedd lletyol – rhannu'r gweithdrefnau diogelu sy'n cefnogi'r broses o nodi ac ymgysylltu â'r teuluoedd hynny yn ysgrifenedig gydag arweinydd diogelu'r sefydliad sy'n gwneud cais a sicrhau ei fod yn fodlon arnynt.
- Rhoi'r holl wybodaeth am y camau diogelu a gaiff eu cymryd cyn y gweithgaredd, gan gynnwys y gweithdrefnau a'r broses i'w dilyn os bydd argyfwng, i oedolion sy'n gwmni.
- Trefnu ymweliad paratoadol, lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol.
- Os bydd y sefydliad sy'n gwneud cais yn cynllunio gweithgareddau lle bydd unigolion dros 18 oed o Gymru'n rhyngweithio ag unigolion dan 18 oed neu oedolion mewn perygl o sefydliadau partner dramor – cytuno ar gamau diogelu priodol ar y cyd â'r sefydliad partner dramor. Rhaid i fanylion y camau hyn gael eu rhannu gyda'r cyfranogwyr i sicrhau dealltwriaeth ohonynt a chydymffurfiaeth, a bod unrhyw ofynion yn cael eu gweithredu.

Oedolion sy'n gwmni

- Os bydd oedolion sy'n gwmni (staff neu fel arall) yn dod i gysylltiad ag unigolion dan 18 oed ac oedolion mewn perygl yn rhan o unrhyw weithgareddau arfaethedig (gan gynnwys symudedd rhithwir) – gofyn i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) wneud gwiriad manwl.
- Cytuno ar gymhareb unigolyn-oedolyn sy'n gwmni drwy ystyried oedran yr unigolion, anghenion ychwanegol unrhyw rai o'r unigolion a'r cymorth penodol sydd ei angen arnynt, natur y gweithgareddau, profiad yr oedolion sy'n gwmni, hyd y gweithgareddau ac unrhyw arosiadau dros nos.
- Gwneud pob oedolyn sy'n gwmni'n ymwybodol

o'i rôl a'i gyfrifoldebau ymlaen llaw.

- Pennu gweithdrefnau recriwtio diogel sy'n sgrinio ymgeiswyr i fod yn oedolyn sy'n gwmni (staff a gwirfoddolwyr) yn ofalus.
- Trefnu bod cymorth priodol ar gael i bob oedolyn sy'n gwmni, gan gynnwys hyfforddiant diogelu ac ymsefydlu gorfodol.
- Gwneud oedolion sy'n gwmni'n ymwybodol o unrhyw broblemau iechyd hysbys sydd gan yr unigolion, gan gynnwys unrhyw feddyginiaethau sy'n cael eu cymryd.
- Sicrhau bod gan bob oedolyn sy'n gwmni fanylion cyswllt argyfwng pob unigolyn dan 18 oed a phob oedolyn mewn perygl.

Cyfranogwyr ag anableddau a / neu anghenion dysgu ychwanegol

- Sicrhau bod camau diogelu'n rhoi sylw i unrhyw unigolion dan 18 oed ac oedolion mewn perygl sydd ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol, a lle bo'n berthnasol, cymryd camau ychwanegol i sicrhau eu diogelwch a'u lles.

Gwybodaeth i rieni / gofalwyr / gwarcheidwaid

- Rhannu gwybodaeth am y symudedd, manylion yr hyn y bydd y dysgwyr yn ei wneud a manylion cyswllt argyfwng gyda rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid cyn dechrau unrhyw weithgareddau.
- Esbonio sut y gellir rhoi gwybod am bryderon ynghylch lles neu achosion o gam-drin, gan gynnwys sut y bydd y rhain yn cael eu trin, i rieni / gofalwyr / gwarcheidwaid cyn dechrau unrhyw weithgareddau.
- Cyfleu disgwyliadau o ran ymddygiad (côd ymddygiad) i rieni / gofalwyr / gwarcheidwaid a'r cyfranogwyr cyn dechrau unrhyw weithgareddau.

Teuluoedd lletyol (lle bo'n berthnasol)

Mae'n rhaid i bob cam rhesymol gael eu cymryd i sicrhau diogelwch a lles yr unigolion pan fyddant yn aros gyda theulu lletyol. Wrth ddewis a rheoli teuluoedd lletyol, mae angen sicrhau y bydd unigolion dan 18 oed ac oedolion mewn perygl yn ddiogel.

Gweithdrefn dewis teuluoedd lletyol:

- Sicrhau bod gan y sefydliad partner dramor weithdrefn i asesu addasrwydd cartrefi a cheisio cadarnhad ysgrifenedig Rhaid i'r arweinydd diogelu o fewn y sefydliad sy'n gwneud cais lofnodi'r weithdrefn hon yn foddhaol.
- Sicrhau bod archwiliadau gan yr heddlu (lle bo'n bosibl), ffurflenni hunan-ddatgan (lle bo'n berthnasol), côd ymddygiad, rheolau tŷ, ymweliadau â'r cartref a gwaith i gadarnhau strwythur y teulu ac addasrwydd trefniadau cysgu'n rhan o weithdrefnau dewis.
- Cyfleu gweithdrefnau dewis i rieni / gofalwyr / gwarcheidwaid a gofyn iddynt gadarnhau'n ysgrifenedig eu bod yn fodlon arnynt
- Paru teuluoedd ac unigolion yn ofalus drwy roi ystyriaeth i rywedd, deiet, crefydd neu gred ac anghenion ychwanegol.

Llety yn ystod ymweliad:

- Sicrhau bod gan bob cyfranogwr ei wely ei hun mewn ystafell gyda rhywun o'r un rhyw, neu ystafell ar wahân.
- Sicrhau y gall pob cyfranogwr wisgo, golchi a defnyddio'r toiled yn breifat.
- Sicrhau bod cynllun wrth gefn os bydd angen i gyfranogwyr newid llety am ba bynnag reswm.

Canllawiau i'r cyfranogwyr / teuluoedd lletyol:

- Rhaid rhoi arweiniad penodol i'r holl gyfranogwyr ar sut i adrodd am risgiau neu sefyllfaoedd sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus, os ydynt poeni am rywbeth sy'n digwydd iddynt wrth aros gyda theulu lletyol, neu os bydd cyfranogwr arall yn codi pryderon gyda nhw. Dylai hyn gynnwys enw a manylion cyswllt yr Arweinydd Diogelu Dynodedig, neu swyddog cyfatebol.
- Rhoi manylion cyswllt mewn argyfwng a gwybodaeth am yr hyn i'w wneud os bydd problemau'n codi i'r cyfranogwyr a'r teuluoedd lletyol Rhoi sylw i unrhyw

wybodaeth a roddwyd ar unwaith ac yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.

Pryderon sy'n ymwneud â diogelu

- Rhaid i'r sefydliad sy'n gwneud cais sicrhau bod rhywun â phrofiad/cymwysterau addas ar alw 24 awr y dydd drwy gydol unrhyw leoliad cyfnewid dramor rhag ofn y bydd argyfwng.
- Rhoi sylw i unrhyw wybodaeth a roddwyd ar unwaith ac yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.
- Sicrhau bod proses ar gyfer cofnodi pob digwyddiad / honiad / pryder. Dylai hyn gynnwys y rheini nad ydynt yn croesi'r trothwy ar gyfer rhybuddio'r arweinydd diogelu
- Rhaid rhoi gwybod i Taith am bob digwyddiad diogelu drwy e-bost i swyddfa@taith.cymru.

Fisâu a mewnfudo

Mae mewnfudo a fisâu i ac o Gymru yn ddarostyngedig i'r rheolau a gyhoeddir gan lywodraeth y DU. Cyfrifoldeb y buddiolwr yw rheoli a gweithredu unrhyw brosesau cymorth sy'n gysylltiedig â fisa/mewnfudo ar gyfer ei gyfranogwyr.

7.e. Gwiriadau ac archwiliadau

Efallai y bydd sefydliadau buddiolwyr Taith yn cael eu dewis ar gyfer archwiliadau gwirio sicrwydd a gynhelir gan Weithrediaeth Rhaglen Taith. Bydd archwiliadau sicrwydd yn amrywio o ran eu cwmpas a'u maint yn ôl y math o sicrwydd sydd ei angen, a byddant yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y defnydd o'r grant yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r Cytundeb Grant a rheolau Taith.

8. Apeliadau a chwynion

8. Apeliadau a chwynion

8.a. Apeliadau

Diffinnir apêl yn gais i adolygu penderfyniad a wnaed gan Taith os bydd ymgeisydd yr apêl yn ystyried nad yw gweithdrefnau'r rhaglen gyhoeddedig wedi cael eu dilyn.

Dim ond sefydliad sy'n gwneud cais (y person neu'r sefydliad sy'n cyflwyno cais am grant i Taith) all gyflwyno apêl, os bydd ymgeisydd yr apêl yn gallu rhoi tystiolaeth o gamgymeriad gweinyddol gan Taith neu os na chadwyd at weithdrefnau cyhoeddedig. Os nad yw'r amgylchiadau hyn yn berthnasol, cyfeiriwch at Weithdrefn Gwyno Taith.

Ni ellir ystyried gwybodaeth na chafodd ei chynnwys yn y cais gwreiddiol ar gyfer apêl.

I gael rhagor o wybodaeth am apeliadau gweler y tudalennau perthnasol ar wefan Taith https://www.taith.cymru/apeliadau-a-chwynion/

8.b. Cwynion

Diffinnir cwyn fel anfodlonrwydd â gwasanaeth y bydd Taith yn ei roi'n uniongyrchol. Os bydd y gŵyn yn ymwneud â gwasanaeth gan sefydliad sy'n fuddiolwr neu'n gyd-fuddiolwr ac sydd wedi cael ei ariannu gan y rhaglen, dilynwch weithdrefn gwyno'r sefydliad sy'n fuddiolwr neu'n gyd-fuddiolwr cyn cyflwyno cwyn i Taith. Gallwch gyflwyno cwyn i Taith unrhyw bryd yn ystod y broses o wneud cais neu ar bob cam o broses y prosiect.

I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn gwyno Taith gweler y tudalennau perthnasol ar wefan Taith https://www.taith.cymru/apeliadau-a-chwynion/

Atodiadau

Atodiad 1 – Categorïau grwpiau gwlad / tiriogaeth

Bydd sefydliadau llwyddiannus yn cael grant i gynnig symudedd dramor, gan gynnwys grantiau cynhaliaeth er mwyn helpu'r cyfranogwyr i dalu costau byw yn y gyrchwlad.

Mae cyrchwledydd wedi'u dosbarthu'n dri grŵp ar sail y costau byw perthynol yn y gyrchwlad. Drwy gydol y symudedd, bydd cyfranogwyr yn cael y swm cynhaliaeth sy'n berthnasol (cyfradd ddyddiol), yn dibynnu ar hyd y symudedd a'r gyrchwlad.

Gofynnir i sefydliadau nodi nifer y gweithgareddau symudedd disgwyliedig fesul cyrchwlad wrth wneud cais. Mae'r tri grŵp fel a ganlyn:

- **Grŵp 1 (Costau byw uwch)**
- **Grŵp 2 (Costau byw canolig)**
- **Grŵp 3 (Costau byw is)**

Bydd Cymru (at ddibenion symudedd mewnol) a'r DU (mewn achosion lle caniateir symudedd domestig) yn wledydd Grŵp 1 i adlewyrchu'r costau byw uwch yn y DU.

Mae pob gwlad neu ranbarth wedi'i dosbarthu fel a ganlyn:

Grŵp 1 (Gwledydd/tiriogaethau costau byw uwch)	
Awstralia	Japan
Awstria	Jersey
Y Bahamas	Lwcsembwrg
Barbados	Macao
Gwlad Belg	Yr Iseldiroedd
Bermuda	Seland Newydd
Canada	Norwy
Denmarc	Qatar
Y Ffindir	Seychelles
Ffrainc	Singapore
Guernsey	Sweden
Hong Kong	Y Swistir
Gwlad yr Iâ	Yr Emiradau Arabaidd Unedig
Iwerddon	Y Deyrnas Unedig
Israel	Unol Daleithiau America

Grŵp 2 (Gwledydd/tiriogaethau costau byw canolig)	
Antarctica ac Ynysoedd y De (heb ei nodi fel arall)	Latfia
Affrica (heb ei nodi fel arall)	Libanus
Asia (heb ei nodi fel arall)	Maldives
Canolbarth America (heb ei nodi fel arall)	Malta
De America (heb ei nodi fel arall)	Namibia
Ewrop (heb ei nodi fel arall)	Nigeria
Bahrain	Oman
Belize	Palesteina
Cambodia	Panama
Côte d'Ivoire Croatia	Portiwgal
Ciwba	Puerto Rico
Cyprus	Senegal
Y Weriniaeth Tsiec	Slofacia
Estonia	Slofenia
Ethiopia	De Affrica
Yr Almaen	De Korea
Gwlad Groeg	Sbaen
Yr Eidal	Taiwan
Jamaica	Trinidad a Tobago
Kuwait	Uruguay

Grŵp 3 (Gwledydd costau byw is)	
Albania	Malaysia
Algeria	Mauritius
Yr Ariannin	Mecsico
Armenia	Moldofa
Azerbaijan	Mongolia
Bangladesh	Montenegro
Belarws*	Morocco
Bolivia	Myanmar
Bosnia a Herzegovina	Nepal
Botswana	Nicaragwa
Brasil	Gogledd Macedonia
Bwlgaria	Pacistan
Cameroon	Paraguay
Chile	Periw
Tsieina	Ynysoedd Philippines
Colombia	Gwlad Pwyl
Costa Rica	Rwmania
Gweriniaeth Dominica	Rwsia*
Ecuador	Rwanda
Yr Aifft	Serbia
El Salvador	Somalia
Ffiji	Sri Lanka
Georgia	Syria
Ghana	Tanzania
Honduras	Gwlad Thai
Hwngari	Tunisia
India	Twrci
Indonesia	Uganda
Iran	Wcráin
Irac	Uzbekistan
Kazakhstan	Venezuela
Kenya	Fietnam
Kosovo	Zambia
Lithwania	Zimbabwe

* Mae gweithgareddau lleoliadau cyfnewid rhyngwladol gyda'r gwledydd hyn wedi'u heithrio o alwad am geisiadau Taith 2022.

Atodiad 2 – Cymorth Cynhwysiant Taith

Mae Taith wedi ymrwymo i wella mynediad i symudedd rhyngwladol i bobl ag anableddau, anghenion dysgu ychwanegol, a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig. Rydym yn deall y gall mynediad at gyllid digonol i dalu am gost symudedd fod yn rhwystr mawr rhag cymryd rhan mewn cyfleoedd rhyngwladol. Mae'r cyllid sy'n cael ei gynnig gan Taith yn cael ei osod ar lefel sy'n ceisio goresgyn y rhan fwyaf o rwystrau ariannol. Mae model grant Taith hefyd yn cynnwys cymorth ariannol ychwanegol i gyfranogwyr difreintiedig (dysgwyr, myfyrwyr a phobl ifanc) ac i gyfranogwyr, gan gynnwys staff, ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau. Ceir gwybodaeth am gyfraddau grant a'r cyllid sydd ar gael yn y Canllawiau Rhaglen Llwybr perthnasol.

1. Cyfranogwyr dan anfantais

Mae cyfranogwyr dan anfantais wedi'i ddiffinio fesul sector perthnasol.

Bydd cyfranogwyr sy'n bodloni un neu fwy o'r meini prawf canlynol yn cael eu hystyried yn gyfranogwyr dan anfantais ac yn gymwys i gael cymorth ariannol ychwanegol:

Addysg Uwch:

- Myfyrwyr lle mae incwm blynyddol y cartref yn £25,000 neu'n llai.
- Myfyrwyr sy'n cael Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm, gan eu bod yn cynnal eu hunain yn ariannol neu'n cynnal eu hunain a rhywun arall sy'n dibynnu arnynt ac yn byw gyda nhw, megis plentyn neu bartner, yn ariannol.
- Myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.
- Myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio (fel y'u diffinnir gan Cyllid Myfyrwyr Cymru).
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

AB, AHG ac Addysg Oedolion:

- Dysgwyr lle mae incwm blynyddol y cartref yn £25,000 neu'n llai.
- Dysgwyr sy'n cael Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm, gan eu bod yn cynnal eu hunain yn ariannol neu'n cynnal eu hunain a rhywun arall sy'n dibynnu arnynt ac yn byw gyda nhw, fel plentyn neu bartner, yn ariannol.
- Dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.1
- Dysgwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Ysgolion:

- Disgyblion lle mae incwm blynyddol y cartref yn £25,000 neu'n llai.
- Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- Disgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal.1
- Disgyblion sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Ieuenctid

- Pobl ifanc lle mae incwm blynyddol y cartref yn £25,000 neu'n llai.
- Pobl ifanc sy'n cael Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm, gan eu bod yn cynnal eu hunain yn ariannol neu'n cynnal eu hunain a rhywun arall sy'n dibynnu arnynt ac yn byw gyda nhw, fel plentyn neu bartner, yn ariannol.

1. Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un sydd wedi bod mewn gofal yn y gorffennol, sydd mewn gofal ar hyn o bryd neu sydd wedi derbyn gofal, am faint bynnag o amser, ar unrhyw adeg yn ystod eu bywyd, gan gynnwys unrhyw un a gafodd ei fabwysiadu a oedd yn derbyn gofal gynt neu sy'n cael bwrsari i fyfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal mewn rhannau eraill o'r DU.

- Pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.[1]
- Pobl ifanc sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

2. Unigolion ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol

Mae Taith wedi ymrwymo i fod yn gynhwysol a helpu'r rhai sydd â chyflyrau iechyd, boed yn rhai corfforol neu feddyliol, i gyfranogi. Felly, bydd Taith yn cynnig grant i unigolion ag anableddau a / neu anghenion dysgu ychwanegol i hyd at 100% o gostau gwirioneddol cymorth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u hanghenion ychwanegol.

Gall cymorth o'r fath gynnwys gwneud asesiadau risg yn rhan o ymweliad paratoadol a sicrhau bod y cymorth sydd ei angen ar gyfer ymgymryd â'r lleoliad cyfnewid ar gael, cyllido aelodau ychwanegol o staff i gefnogi'r unigolyn a / neu dalu am offer / addasiadau / adnoddau sydd eu hangen ar yr unigolyn i gyfranogi. Mae rhagor o wybodaeth am ymweliadau paratoadol ar gael yn adran gweithgareddau cymwys y Canllaw Rhaglen.

1. Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un sydd wedi bod mewn gofal yn y gorffennol, sydd mewn gofal ar hyn o bryd neu sydd wedi derbyn gofal, am faint bynnag o amser, ar unrhyw adeg yn ystod eu bywyd, gan gynnwys unrhyw un a gafodd ei fabwysiadu a oedd yn derbyn gofal gynt neu sy'n cael bwrsari i fyfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal mewn rhannau eraill o'r DU.

Rhaglen sy'n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru yw Taith. Mae'n cael ei harwain gan International Learning Exchange Programme (ILEP) Ltd, corff gweithredol Taith sy'n un o is-gwmnïau Prifysgol Caerdydd.

© 2022 ILEP Ltd